**DISGRIFIAD SWYDD A MANYLION Y PERSON**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Dadansoddwr Marchnad Gofal Iechyd |
| **Lleoliad** | Rhyddid i weithio o bell ac yn ein swyddfa yng Nghaerdydd |
| **Yn atebol i** | Pennaeth Gwybodaeth Sector |
| **Is-weithwyr Uniongyrchol** | 0 |
| **Graddfa Swydd** | 3 |
| **Cyflog** | £36,635 y flwyddyn |
| **Cyfnod** | Parhaol |

**Gwybodaeth am Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru**

Nod Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yw sicrhau mai Cymru yw'r gyrchfan flaenllaw ar gyfer arloesi ym maes iechyd, gofal a llesiant. Fel catalydd dros newid, rydyn ni'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu a mabwysiadu atebion iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl ar hyd a lled y wlad. Mae ein cenhadaeth yn cynnwys:

- Cynnull diwydiant, gofal iechyd, gofal cymdeithasol a'r byd academaidd i rannu syniadau, nodi anghenion, a meithrin cydweithio.
- Integreiddio'r ecosystem arloesi, gan osod Cymru fel sbardun pwerus ar gyfer arloesi ym maes iechyd.
- Cyflymu'r broses o fabwysiadu atebion trawsnewidiol i sbarduno newid yn y system.
- Eirioli dros iechyd a llesiant economaidd, codi proffil Cymru, a denu buddsoddiad.

**PRIF BWRPAS Y SWYDD:**

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (HGBC) yn hybu newid gweddnewidiol, systematig, yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn creu dyfodol gwell i bobl Cymru. Ein rôl yw ysbrydoli arloesi a chydweithredu rhwng diwydiannau, sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol a sefydliadau ymchwil er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl a theuluoedd ym mhob cwr o'r wlad.

Fel catalydd ar gyfer newid, rydym yn gweithio gyda GIG Cymru er mwyn deall materion a chanfod sut y gall arloesi helpu i ddarparu gwell gofal. Rydym yn cynorthwyo busnesau i greu atebion iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn creu cysylltiadau sy'n galluogi pobl a sefydliadau i weithio mewn partneriaeth.

Ein cenhadaeth yw cyflymu'r gwaith o ddatblygu a mabwysiadu datrysiadau arloesol ar gyfer gwell iechyd a llesiant. Ein gweledigaeth yw sicrhau mai Cymru yw'r lle o ddewis ar gyfer arloesedd yn meysydd iechyd, gofal a llesiant.

Mae ein Dadansoddwr Marchnad Gofal Iechyd yn gyfrifol am gyflawni ymchwil amrywiol i'r sector gwyddorau bywyd iechyd yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a thramor, gan gynnwys gofal iechyd, gwyddorau bywyd, technoleg feddygol, therapïau uwch a'r sector fferyllol.

Bydd deiliad y swydd yn defnyddio ei sgiliau dadansoddi cryf i gasglu, cymhathu a dehongli gwybodaeth, data, dirnadaeth, ac adborth er mwyn adeiladu banc gwybodaeth Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru. Bydd yn datblygu gwybodaeth werthfawr i gefnogi gweithgareddau amrywiol, drwy ymchwil eilaidd, yn ogystal ag ymchwil cynradd i'r farchnad, megis:

- Adroddiadau ymchwil i'r farchnad a gwybodaeth am y busnes
- Penderfyniadau busnes
- Datblygu prosiectau arloesi ym maes gofal iechyd
- Asesiadau o ddichonoldeb y farchnad
- Asesiadau o dechnoleg yn y farchnad
- Ystyriaethau economeg iechyd
- Nodi ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar lefel leol, cenedlaethol a rhyngwladol Cyfathrebiadau strategol, cysylltiadau cyhoeddus a gweithgareddau marchnata

Yn ychwanegol, bydd y Dadansoddwr Marchnad Gofal Iechyd yn goruchwylio holl weithgareddau ymchwil Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru – trin y llif-waith i ymateb i derfynau amser ac i gloriannu ansawdd a chywirdeb y gwaith a chynnyrchwyd cyn iddo gael ei dyroddi.

Bydd gan ddeiliad y swydd ddealltwriaeth dda o ddulliau ymchwil amrywiol yn ogystal â phrofiad o reoli ymchwil eilaidd, a phrosiectau ymchwil cynradd i'r farchnad, cynhyrchu adroddiadau ar ddichonoldeb y farchnad a gwneud ymchwil i'r farchnad.

Fel swydd newydd, bydd y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau penodol yn datblygu'n organig yn y tymor byr. Bydd y Cyfarwyddwr Arloesi a Mabwysiadu a deiliad y swydd yn cytuno ar swydd-ddisgrifiad terfynol ar adeg briodol.

Asesir llwyddiant y swydd ar sail amcanion unigol.

**Ein Gwerthoedd:**

- **Angerdd** – Rydyn ni wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth drwy arloesi effeithiol yng Nghymru.
- **Cydweithredu** – Rydyn ni'n ymgysylltu â'n rhanddeiliaid a'n cydweithwyr i sbarduno newid.
- **Arbenigedd** – Rydyn ni'n rhagori yn ein set sgiliau amrywiol, gan ddefnyddio ein harbenigedd i gyflawni nodau uchelgeisiol.
- **Proffesiynoldeb** – Rydyn ni wedi ymrwymo i ragori ym mhopeth a wnawn.

**Y PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU:**

- Goruchwylio a Chynllunio, gweithredu a rheoli prosiectau ymchwil o'r dechrau i'r diwedd, cytuno ar y briff ymlaen llaw, nodi methodolegau addas, dadansoddi a dehongli gwybodaeth a data er mwyn dod i gasgliadau cywir ac ystyrlon.

- Cynnal a goruchwylioymchwil i'r farchnad, gan ddefnyddio dulliau amrywiol er mwyn sicrhau dirnadaeth a dealltwriaeth o sectorau gwyddorau bywyd iechyd a rhaglenni arloesi ym maes gofal iechyd yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a thramor a chynorthwyo mentrau i wneud y canlynol (ymhlith pethau eraill):

    - hysbysu a chadarnhau cyfeiriad busnes a ffocws y Cwmni
    - darparu dirnadaeth ddofn a chredadwy i brosiectau arloesi ym maes gofal iechyd
    - nodi cyfleoedd, themâu, tueddiadau, bygythiadau a risgiau sy'n amlygu eu hunain
    - nodi cyfleoedd ar gyfer cyllid i arloesi ym maes gofal iechyd a chyfrannu tuag at y gwaith o ddatblygu ceisiadau am gyllid
    - hysbysu a chadarnhau strategaeth a chynllun datblygu busnes
    - cefnogi'r gwaith o ddatblygu trafodaeth / arwain agweddau / papurau ymchwil, papurau briffio, ymatebion polisi, adroddiadau, cyflwyniadau ac yn y blaen
    - mapio rhanddeiliaid
    - cefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglenni newydd, mentrau cefnogi a phrosiectau arloesi ym maes gofal iechyd
    - cefnogi'r gwaith o ddehongli a deall polisi ac adroddiadau rhanddeiliaid

- Datblygu a chynnal banc gwybodaeth yn cynnwys ymchwil, gwybodaeth a gwybodaeth fewnol am y busnes, ar SharePoint, er mwyn cefnogi pob agwedd ar weithgareddau Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

- Llunio, neu gyd-drefnu'r gwaith o lunio, adroddiadau cywir ac addas i'r diben, sy'n cael eu cyflwyno i safon uchel, ac sy'n nodi ac yn cyfathrebu negeseuon, casgliadau ac argymhellion allweddol o fewn amserlenni cytunedig (a chyllidebau lle bo'n gymwys). Lle bo modd, llunio adroddiadau mewn fformat sy'n briodol i nifer o randdeiliaid.

- Llunio adroddiadau dichonoldeb amserol ar sail prosiect sy'n galluogi'r tîm arloesi a mabwysiadu i ddeall a dirnad cynnyrch/gwasanaethau buddiolwyr a'r diwydiant/marchnad.

- Llunio adroddiadau seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi timau prosiectau sy'n gwneud ceisiadau ariannol a llunio dogfennau ceisiadau llwyddiannus.

- Mynd i gyfarfodydd prosiectau a thynnu sylw arweinwyr prosiectau, mewn da bryd, at unrhyw broblemau a allai godi wrth wneud ymchwil neu ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg a allai effeithio ar allu timau i gyflawni prosiectau'n llwyddiannus.

- Cynnal dadansoddiad o randdeiliaid, y farchnad a’r busnes er mwyn helpu â gwelliant parhaus cyfathrebiadau a gweithgareddau marchnata ac enillion ar fuddsoddiad.

- Gweithio mewn cysylltiad agos â rhanddeiliaid allweddol er mwyn gwneud ymchwil manwl i’r farchnad a’r busnes.

- Nodi a rheoli pob cronfa ddata, meddalwedd ac offer ymchwil. Sicrhau bod systemau, prosesau ac adnoddau eraill sydd ar gael yn addas i’r diben ac yn darparu data a gwybodaeth gywir o safon uchel.

- Adeiladu a chynnal perthnasoedd gweithio effeithiol gyda chydweithwyr ar draws HGBC.. Ymateb yn gadarnhaol ac yn effeithiol i geisiadau ad hoc am ymchwil, gwybodaeth ac adroddiadau gan bob cydweithiwr / rhanddeiliad.

- Sicrhau trefniadau effeithiol ac effeithlon er mwyn rheoli cyflenwyr. Yn gyfrifol am benodi a rheoli ymgynghorwyr / cyflenwyr allanol – monitro cyflawniad, ansawdd a chost-effeithiolrwydd drwy gymharu â’r contract.

- Cynrychioli’r cwmni mewn cyfarfodydd gyda chleientiaid, cynadleddau a digwyddiadau.

- Cynnal safon uchel o gywirdeb mewn materion proffesiynol, personél ac ariannol, cynnal cysylltiadau da â chydweithwyr a phartneriaid allanol a gweithredu yn unol â chod ymddygiad Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

**Cyffredinol**

- Hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o gyflawni cenhadaeth, gweledigaeth, gwerthoedd a nodau'r Cwmni.

- Cyflawni cyfrifoldebau'r swydd bob amser gan roi sylw dyledus i gydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant a gwerthoedd sefydliadol Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

- Cynnal safon uchel o ran cywirdeb yng nghyswllt materion ariannol, personél a phroffesiynol, cynnal cysylltiadau da â chydweithwyr a phartneriaid allanol, a gweithredu'n unol â chod ymddygiad Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

- Cynnal perthynas waith effeithiol gyda thîm a phartneriaid ehangach Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, gan rannu gwybodaeth ac adborth i sicrhau dull integredig o gyflawni nodau ac amcanion (allbynnau, canlyniadau a manteision), a chefnogi cysylltedd rhwng pob agwedd ar waith Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

- Cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a chynnal cyfrinachedd; gan gynnwys pob agwedd ar ofynion rheoli data a gwybodaeth; casglu, storio, dosbarthu, archifo ac, yn y pen draw, dinistrio gwybodaeth i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau a chyflawni, a monitro, adrodd a darparu tystiolaeth o berfformiad.

- Nid bwriad y disgrifiad swydd yw cynnwys pob agwedd ar y swydd, ond yn hytrach rhoi diffiniad clir o bwrpas, cyfrifoldebau a dimensiynau sylfaenol y gwaith. Hefyd, disgwylir i ddeiliad y swydd gyflawni pob tasg berthnasol a rhesymol arall y mae'r rheolwyr llinell yn ei rhoi iddo.

**MANYLEB Y PERSON**

| **PRIODOLEDDAU** | **HANFODOL** | **DYMUNOL** |
|---|---|---|
| **GWYBODAETH** | Cymhwyster cydnabyddedig neu radd mewn ymchwil neu faes tebyg | |
| | Gwybodaeth fanwl am ddulliau ymchwil, yn defnyddio ffynonellau amrywiol | Gwybodaeth fanwl am ddulliau ymchwil, yn defnyddio ffynonellau amrywiol yn y sector gwyddorau bywyd iechyd, gan gynnwys egwyddorion economeg iechyd. |
| | Egwyddorion ac arferion ymgysylltu â rhanddeiliaid | |
| **PROFIAD** | Swyddi yn gysylltiedig ag ymchwil | Swyddi yn gysylltiedig ag ymchwil yn y sector gwyddorau bywyd iechyd |
| | Cynllunio a gwneud ymchwil i'r farchnad / prosiectau dichonoldeb, dadansoddi a | Cynllunio a gwneud ymchwil i'r farchnad / prosiectau dichonoldeb, dadansoddi a |

| | | |
|---|---|---|
| | chyflwyno canfyddiadau fel sail i wneud penderfyniadau | chyflwyno canfyddiadau fel sail i wneud penderfyniadau yn y sector gwyddorau bywyd iechyd |
| | Cyflwyno a dosbarthu canlyniadau ymchwil i gynulleidfaoedd amrywiol, mewn gwahanol fathau o fforymau ac mewn gwahanol gyfryngau | |
| **SGILIAU A GALLUOEDD** | Meddyliwr beirniadol cryf: dull systematig o ymdrin â gwybodaeth ac arbenigwr ar ddefnyddio technegau dadansoddi a chyfosod amrywiol. Y gallu i sicrhau, gwella ac arloesi arferion yn barhaus er mwyn cael canfyddiadau defnyddiol, cysylltu canfyddiadau â ffactorau a chyd-destun allanol, a darganfod patrymau o ganfyddiadau, a nodi pa rai sy'n ddefnyddiol | |
| | Gallu arbenigol i wneud ymchwil eilaidd a chynradd: yn gallu dewis a defnyddio methodoleg ymchwil briodol a chefnogi technegau er mwyn cyflawni amcanion | |
| | Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar bapur ac ar lafar: y gallu i droi gwybodaeth gymhleth yn negeseuon allweddol a mynegi'r rhain ar lafar ac mewn dogfennau ar bynciau penodol | |
| | | Sylw manwl a chyson i fanylion a sgiliau gwirio data: canolbwyntio ar fanylion a bod yn drylwyr, y gallu i ddarllen proflenni wedi'i ddatblygu'n dda |
| | | Sgiliau rheoli prosiectau: cynllunydd cryf a threfnus, yn blaenoriaethu ac yn cwblhau gwaith o fewn terfynau amser / cyllideb |

| | | |
|---|---|---|
| | | Hunan-gymhelliant: y gallu i weithio ar ei liwt ei hun a'r awch i sicrhau bod gweithgareddau'n arwain at ganlyniadau llwyddiannus o fewn terfynau amser |
| | | Gwaith tîm: y gallu i weithio'n effeithiol gyda phobl eraill er mwyn deall a chyflawni nodau ymchwil |
| | | Yn hyddysg mewn pecynnau meddalwedd Windows, a defnyddio platfformau ymchwil i'r farchnad, tueddiadau a dirnadaethau |

**GOFYNION YCHWANEGOL**

- Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus gael gwiriad diogelwch gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd.
- Bod yn barod i weithio'n hyblyg i ddiwallu anghenion rhesymol y cwmni.
- Hunangynhaliol o ran defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
- Trwydded yrru ddilys a'i gludiant ei hun. Fodd bynnag, fel cyflogwr cyfle cyfartal, rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan bobl sy'n gallu gwneud trefniadau teithio addas o fath arall.

Yn ogystal â'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y disgrifiad hwn, mae disgwyl i ddeiliad y swydd gyflawni pob tasg berthnasol a rhesymol arall y mae'r rheolwyr llinell yn ei rhoi iddo.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf yn cydnabod ei bod yn bwysig datblygu a meithrin ei weithlu dwyieithog ac mae'n croesawu ceisiadau ar gyfer unrhyw swydd gan unigolion sy'n dangos eu bod yn gallu gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gyflogwr cyfle cyfartal ac mae'n annog ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys waeth beth fo'u rhyw, hil, anabledd, oed, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred, statws priodasol, neu feichiogrwydd a mamolaeth.

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

**JOB DESCRIPTION & PERSON SPECIFICATION**

| | |
|---|---|
| **Job Title** | Healthcare Market Analyst |
| **Location** | Blend your working time remotely and at our Cardiff office |
| **Responsible to** | Head of Sector Intelligence |
| **Direct Reports** | 0 |
| **Job Grade** | 3 |

| | |
|---|---|
| **Salary** | £36,635 per annum |
| **Term** | Permanent |

**About Life Sciences Hub Wales**
Life Sciences Hub Wales aims to make Wales the leading destination for health, care, and wellbeing innovation. We act as a catalyst for change, supporting the development and adoption of health and social care solutions that positively impact people's lives across the nation. Our mission includes:

- Convening industry, healthcare, social care, and academia to share ideas, identify needs, and foster collaboration.
- Integrating the innovation ecosystem, positioning Wales as a powerful driver of health innovation.
- Accelerating the adoption of transformative solutions to drive system change.
- Advocating for health and economic wellbeing, raising Wales's profile, and attracting investment.

**MAIN PURPOSE OF ROLE:**

Life Sciences Hub Wales (LSHW) drives transformational, systematic change in the health and social care sectors to create a better future for the people of Wales. Our role is to inspire innovation and collaboration between industry, health and social care, and research organisations to make a positive difference to people and families across the nation.

As a catalyst for change, we work with NHS Wales to understand issues and identify how innovation can help deliver better care. We support businesses to create health and social care solutions. We create connections which enable people and organisations to work in partnership.

Our mission is to accelerate the development and adoption of innovate solutions for better health and wellbeing. Our vision is to make Wales the place for choice and health, care and wellbeing innovation.

Our Healthcare Market Analyst is responsible for undertaking a wide range of research on the Welsh, UK and international health life sciences sector, to include healthcare, life sciences, medical technology, advanced therapies and the pharmaceutical sector.

The post holder will use their strong analytical skills to collect, assimilate and interpret information, data, insights, and feedback in order to build Life Sciences Hub Wales's knowledge bank. You will develop valuable intelligence to support a wide range of activities, via secondary research, as well as primary market research, such as:

- Market research and business Information reports
- Business decisions
- Healthcare innovation project development
- Market feasibility assessments
- Market technology assessments
- Health economics considerations
- Local, national and international stakeholder identification and engagement

- Strategic communications, PR and marketing activity

In addition, the Healthcare Market Analyst will supervise all LSHW research activity - manage workflow to meet deadlines and evaluate the quality and accuracy of work produced before issue.

The post holder will have a good understanding of a broad range of research methods as well as experience of managing secondary research, and primary market research projects, producing market feasibility reports and conducting market research.

The success of the role will be assessed against individual objectives.

**Our Values:**

- **Passionate** – We're committed to making a difference through impactful innovation in Wales.
- **Collaborative** – We actively engage with our stakeholders and colleagues to drive change.
- **Expert** – We excel in our diverse skill set, using our expertise to achieve ambitious goals.
- **Professional** – We are committed to excellence in everything we do.

**MAIN DUTIES & RESPONSIBILITIES:**

- Supervise, plan, implement and manage research projects from start to completion, agreeing brief in advance, identifying suitable methodologies, analysing and interpreting information and data to deliver accurate and meaningful conclusions.

- Conduct and supervise market research, utilising a variety of methods to secure insight and understanding of the Welsh, UK and international health life sciences sectors and healthcare innovation programmes and support initiatives to (but not limited to):

    - inform and substantiate the Company's business direction and focus
    - provide credible, deep insight for healthcare innovation projects
    - identify emerging opportunities, themes, trends, threats and risks
    - identify healthcare innovation funding opportunities and contribute to the development of funding bids
    - inform and substantiate business development strategy and plan
    - support the development of discussion / thought leadership / research papers, briefing papers, policy responses, reports, presentations etc
    - map stakeholders
    - support the development of new programmes, support initiatives and healthcare innovation projects
    - support the interpretation and understanding of stakeholder policy and reports

- Develop and maintain a knowledge bank of research, intelligence and internal business information, maintained on SharePoint, to support all aspects of Life Sciences Hub Wales's activities.

- Produce, or coordinate the production, of accurate and fit-for-purpose reports to a high standard of presentation which identify and communicate key messages, conclusions and recommendations within agreed timescales (and budget where applicable). Where possible, produce reports in a format appropriate for multiple stakeholders.

- Produce timely feasibility reports on a project basis which provide the innovation adoption team with an understanding and insight into beneficiary product/service and industry/market.

- Produce evidence-based reports to support funding bid project teams and the production of winning bid documents.

- Attend project meetings and alert project leads, in a timely manner, to any problems that may arise in the conduct of research or emerging findings which may impact successful delivery.

- Conduct stakeholder, market and business analysis to assist with the continuous improvement of communications and marketing activity and return on investment.

- Work closely with key stakeholders to undertake in-depth market and business research.

- Identify and manage all research databases, software and tools. Ensure that systems, processes and other available resources are fit-for-purpose and deliver accurate and high-quality data and information

- Build and maintain effective working relationships with colleagues across LSHW. Respond positively and effectively to ad hoc research, information and reporting requests from all colleagues / stakeholders.

- Ensure effective and efficient supplier management. Responsible for the appointment and management of external consultants / suppliers - monitoring the delivery, quality and cost-effectiveness against contract.

- Represent the company at client meetings, conferences and events.

- Maintain a high standard of probity in professional, personnel and financial matters, maintaining good relations with colleagues and external partners and to act in accordance with the Life Sciences Hub Wales's code of conduct.

**General**

- Promote and support the achievement of the Company's mission, vision, values, and goals at every opportunity.

- Always carry out the responsibilities of the post with due regard to equality, diversity, and inclusion and LSHWs organisational values.

- Maintain a high standard of probity in professional, personnel and financial matters, maintaining good relations with colleagues and external partners and to act in accordance with the LSHW's code of conduct.

- Maintain effective working relationships with the wider LSHW team and partners, sharing intelligence and feedback to secure an integrated approach to the achievement of aims and objectives (outputs, outcomes, and benefits), and support connectivity between all areas of LSHW work.

- Comply with the Data Protection Act and the maintenance of confidentiality; including all aspects of data and information management requirements; collection, storage, dissemination, archiving and eventual destruction of information to support decision making and delivery activity, and monitoring, reporting, and evidencing performance.

- This Job Description is not intended to be exhaustive in every respect, but rather to clearly define the fundamental purpose, responsibilities and dimensions for the role. In addition, the post holder will be expected to undertake all other reasonable and related tasks allocated by line management.

## PERSON SPECIFICATION

| ATTRIBUTES | ESSENTIAL | DESIRABLE |
|---|---|---|
| **KNOWLEDGE** | Recognised qualification or degree in research or similar | |
| | Detailed knowledge of research methods, using a variety of sources | Detailed knowledge of research methods, using a variety of sources in the health life sciences sector, including the principles of health economics |
| | Stakeholder engagement principles and practices | |
| **EXPERIENCE** | Research related positions | Research related positions in the health life sciences sector |
| | Planning and undertaking market research / feasibility projects, analysing and presenting findings to inform decision making | Planning and undertaking market research / feasibility projects, analysing and presenting findings to inform decision making in health life sciences sector |
| | Presenting and disseminating research results to a wide range of audiences, at different types of forums and mediums | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **SKILLS & ABILITIES** | Strong critical thinker: methodical approach to information handling and expert at utilising a wide range of analysis and synthesis techniques. Ability to continually assure, improve and innovate practices to extract useful findings, relating findings to external factors and context, and unearthing patterns of findings, discerning which are useful | |
| | Expert secondary and primary research ability: capable of selecting and employing appropriate research methodology and support techniques to meet objective | |
| | Excellent written and verbal communication skills: ability to distil complex information into key messages and articulate these verbally and in focused documents | |
| | | Meticulous and consistent attention to detail and data checking skills: a high focus on detail and thoroughness, well developed proof-reading ability |
| | | Project management skills: well organised, strong planner, prioritises and delivers to deadlines / within budget |
| | | Self-motivated: ability to work under own initiative with the drive to ensure that activities result in successful outcomes within deadlines |
| | | Teamwork: ability to work effectively with others to understand and achieve research goals |
| | | Proficient in window-based software packages, use of market research, trends and insights platforms |

**ADDITIONAL REQUIREMENTS**

- Successful candidates must pass a disclosure and barring security check.
- Willingness to work flexibly to meet the reasonable needs of the company.
- Self-sufficient in use of information and communications technology.
- Valid driving license and own transport. However, as an equal opportunity employer, we welcome applications from those who are able to make alternative, suitable travel arrangements.

In addition to the contents of this role description, the post holder will be expected to undertake all other reasonable and related tasks allocated by line management.

Life Sciences Hub Wales Ltd acknowledges the importance of developing and growing its bilingual workforce and welcomes applications for any post from candidates who demonstrate their capability to work in both English and Welsh.

Life Sciences Hub Wales is an equal opportunities employer and positively encourages applications from suitably qualified and eligible candidates regardless of sex, race, disability, age, sexual orientation, gender reassignment, religion or belief, marital status, or pregnancy and maternity.